



Plentyn D

Bwriedir i'r astudiaethau achos hyn godi materion mewn cyd-destun ymarferol; gan ddwyn ynghyd y ffactorau hollbwysig, yn enwedig ynghylch gwaith amlasiantaeth. Byddant yn helpu i roi ffactorau risg yn eu cyd-destun a chodi cwestiynau am atal o fewn sefyllfaoedd o gam-drin, esgeulustod a niwed hysbys. Maen nhw wedi'u crynhoi i gynorthwyo gyda'r broses hon, ond mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adroddiadau adolygu go iawn.

Cyd-destun a chefnidir yr adolygiad

Mae gan ddau blentyn rieni sy'n derbyn cymorth gan y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau (SMS).

Cafwyd profion positif o opiadau mewn samplau gwallt gan y plant. Credid bod rhywun yn rhoi opiadau a/neu fethan yn fwriadol i'r plant tra bod y plant ar y gofrestr amddiffyn plant. Roeddent yn destun Gorchymyn Gofal Interim (a osodwyd yng Ngwanwyn 2014). Yn ystod hydref 2014, symudwyd y ddau blentyn o ofal eu rhiant.

Amgylchiadau, a'r heriau a wynebwr gan yr unigolyn

Ar ôl ei eni, dangosodd yr ail blentyn symptomau o ddiddlyfnu cyffuriau oherwydd bod y fam wedi bod yn camddefnyddio sylweddau yn ystod ei beichiogrwydd.

Nid oedd y rhieni'n ymgysylltu ag asiantaethau'n rheolaidd ac nid oedd anghenion eu plant bob amser yn flaenoriaeth.

Ddiwedd mis Rhagfyr 2013, nodwyd oedi datblygiadol yn y plant a ysgogodd ymchwiliad i'r achosion posibl. Dangoswyd yn ddiweddarach ei fod yn debygol o fod wedi'i achosi gan opiadau/methadon.

Roedd seicolegydd clinigol yn amau bod opiadau/methadon yn cael eu defnyddio i leihau ymddygiadau anodd neu atal symptomau diddyfnu.

Beth ddigwyddodd?

- Ym mis Hydref 2012 cafodd y gwasanaethau cymdeithasol atgyfeiriad gan y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau, pan oedd y fam wedi bod yn feichiog am 26 wythnos. Penderfynwyd cwblhau asesiad cychwynnol i gael rhagor o fanylion gan fod yr atgyfeiriad mor amwys. Bwriad yr atgyfeiriwr oedd agor hwn fel achos amddiffyn plant, ond agorwyd yr achos fel achos 'plentyn mewn angen'.
- Nid yw pob adran gofal cymdeithasol yn derbyn atgyfeiriadau cyn geni gan asiantaethau partner, ac mae rhai ond yn derbyn atgyfeiriadau ar ôl 24 wythnos o feichiogrwydd. Bydd rhai yn derbyn atgyfeiriadau cynnar i geisio cefnogi rhieni i wneud y newidiadau a'r penderfyniadau angenrheidiol.
- Nid oedd cysondeb o ran asesiadau cyn geni ar draws y rhanbarth.



- Nododd y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau'r risg o weithio ar eu pennau eu hunain wrth gwrdd â'r tad. Er gwaethaf yr asesiad hwn, methwyd â gweld y gydberthynas o ran risgiau posibl i'r plant gan eu bod yn dal i fyw ar yr aelwyd.
- Roedd gweithwyr proffesiynol wedi bod yn araf i sylwi ar ddiffyg cydymffurfiaeth y rhieni.
- Ychydig iawn o gofnodion cudd-wybodaeth yr heddlu a rannwyd gydag asiantaethau partner. Er y gallai'r rhesymau dros hyn fod yn rhesymegol, teimlwyd bod angen i'r heddlu sicrhau nad oedd unrhyw fylchau yn y wybodaeth a oedd yn berthnasol i ddiogelu.
- Roedd yr heddlu wedi bod i gartref y teulu o ganlyniad i warant a gynlluniwyd ymlaen llaw o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971. Collwyd dau gyfle i weithio'n gydgysylltiedig rhwng asiantaethau.
- Roedd y plant yn cysgu trwy gydol ymweliad yr heddlu â chartref y teulu, ac wedyn gwnaeth yr heddlu atgyfeiriad Amddiffyn Plant yn amlinellu pryderon diogelu. Fodd bynnag, bu oedi ynghylch yr atgyfeiriad hwn ac nid oedd yn ddigon amserol.
- Mewn cyfarfodydd diogelu allweddol, collwyd cyfleoedd lle nad oedd gwybodaeth am ddiogelu yn cael ei rhannu ac o ganlyniad ni wnaed unrhyw benderfyniadau strategol gyda sylfeini cadarn.
- Oherwydd llwyth gwaith cynyddol y staff, nid yw cyfarfodydd amlasiantaethol ffurfiol yn cael eu hystyried yn 'gyfle euraid' i greu cynllun aml-asiantaeth, cydgysylltiedig a gwybodus yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol a pherthnasol.
- Ni rannwyd canlyniadau profion wrin gan y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau yn y cyfarfod amlasiantaeth ac roedd un achlysur lle rhannwyd y canlyniad ond heb unrhyw gyd-destun a oedd yn berthnasol i ddiogelu.
- Gwrthododd y fam ganiatáu i'r plentyn ieuengaf ddarparu sampl i'w ddadansoddi. Dylai hyn fod wedi peri pryder nad oedd y rhiant yn blaenoriaethu anghenion diogelu'r plentyn a dylai fod wedi seinio larwm ac ysgogi uwchgyfeirio.
- Doedd gan weithwyr ieuchyd proffesiynol ddim mynediad amserol at ddogfennau diogelu a bu'n rhaid iddynt ddibynnu ar friff llafar gan weithiwr y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau.
- Nid yw pob gweithiwr proffesiynol yn defnyddio'r un termau o ran sylweddau camddefnyddio – arweiniodd hyn at benderfyniadau a wnaed yn seiliedig ar dybiaethau a chamddealltwriaeth.

Pam y digwyddodd?

- Roedd yr asesiad cychwynnol yn wan gan na wnaed gwiriadau gyda'r holl asiantaethau statudol gan gynnwys yr heddlu – Diogelu Plant: Gweithio gyda'n gilydd o dan y Ddeddf Plant, dylid ystyried yr holl wybodaeth. Mae'n bosibl, gyda mwy o wybodaeth y gellid cwblhau asesiad risg mwy gwybodus a nodi ymddygiad yn y dyfodol yn gynnar.
- Tynnodd rheolwr y tîm sylw at y ffaith bod y plant mewn perygl o niwed oherwydd bod gallu eu rhiant i ofalu amdanynt wedi dirywio oherwydd camddefnyddio sylweddau. Dywed y rheolwr



y bydd angen asesu pellach a chynllunio plant mewn angen. Nid yw'n glir a oedd asesiad wedi digwydd.

- Mae'r rheolwr gofal cymdeithasol yn deall hynny ond yn teimlo nad yw'n ddisgwyliad rhesymol cael cronoleg ar gyfer pob achos plentyn mewn angen. Fodd bynnag, mae'r dull hwn yn arf allweddol i ddarparu cefnogaeth gyda myfyrio a dadansoddi, mewn amser real ac ar ôl y digwyddiad. Dengys ymchwil hefyd y gall cronolegau ddangos y gall adnabod patrymau mewn ymddygiad yn gynnar ddangos ymddygiadau sy'n rhan allweddol yn yr achos hwn.
- Nid oedd gweithiwr proffesiynol y gwasanaethau cymdeithasol yn glir bob amser pryd y dylid cynnal asesiad cyn geni. (Roedd yn fwy addas gan fod yn rhaid i'r asesiad cychwynnol weld y plentyn er mwyn asesu).
- Roedd gan y rheolwr a oedd yn ymwneud â'r achos deimlad ym mên ei esgyrn nad oedd penderfyniad y gweithiwr cymdeithasol yn gywir (perswadiwyd y gweithiwr cymdeithasol y dylai'r plant aros gyda'r rhieni). Tynnodd yr adolygydd sylw at y ffaith ei bod yn ddefnyddiol yn y math hwn o achos i ystyried beth yw'r teimlad hwn a sut i chwilio am dystiolaeth i gefnogi neu ddiystyru greddf broffesiynol y rheolwr. Dylid gwneud hyn drwy oruchwyliaeth ac ymarfer myfyriol.
- Mae'r achos hwn yn dangos pwysigrwydd llygaid ffres a goruchwyliaeth wrthrychol gan y bu dau achlysur lle'r oedd gweithwyr newydd yn cwrdd â'r teulu ac yn tynnu sylw at bryderon ar unwaith. Gallai hyn fod yn arwydd o gysylltiadau cydgynllwynio neu broblem arall fel gweithwyr yn cael eu llywio gan y rhieni. Dylid archwilio a herio'r rhain.
- Nid oedd gweithwyr proffesiynol bob amser yn gyson wrth herio rhieni ynghylch eu gweithredoedd.
- Nid yw pob gweithiwr proffesiynol yn gyfforddus yn herio penderfyniadau ac nid oes diwylliant lle mae her broffesiynol yn gweithredu fel gwiriad effeithiol a chydbwysedd i benderfyniadau unochrog.
- Teimlwyd nad oedd anghenion diogelu'r plant yn cael blaenoriaeth. Doedd dim dystiolaeth bod 'Protocol Amlasiantaeth Gogledd Cymru: Cefnogi Plant, Cefnogi Rhieni' yn cael ei ddilyn.
- Nid oedd gweithwyr proffesiynol yn 'meddwl yr hyn na ellir ei ddychmygu', sef ei bod yn bosibl bod y rhiant yn rhoi opiadau a/neu fethadon i blant.

Argymhellion yr adroddiad

Mae'r adolygiad achos difrifol yn gwneud 10 argymhelliad:

1. Rhaid codi ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag achosion posibl o gam-drin plant er mwyn eu galluogi i feddwl yr hyn na ellir ei ddychmygu. Rhaid iddynt ystyried y gallai plant fod wedi derbyn sylweddau anghyfreithlon fel methadon yn fwriadol ac y dylid eu hyfforddi yn yr arwyddion a'r symptomau sy'n deillio o hyn.
2. Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau i dderbyn hyfforddiant ac eglurhad ynghylch pryd a sut i rannu gwybodaeth yn briodol.



3. I'r gwasanaethau cymdeithasol, roedd y cyfarfod strategaeth adeg ei ryddhau yn gyfle allweddol a rhaid adolygu mecanweithiau mewnol i sicrhau bod her briodol a digonol ar waith wrth gadeirio'r cyfarfodydd hyn.
4. Mae delio â rhieni cymhleth sy'n aml yn heriol yn anodd i lawer o weithwyr proffesiynol ac yn yr achos hwn roedd goroptimistaeth mewn perthynas â pharodrwydd a gallu'r rhieni i newid. Mae angen hyfforddiant pellach i arfogi gweithwyr proffesiynol yn ddigonol i reoli rhieni cymhleth.
5. Rhaid i'r heddlu adolygu ei brosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth yn amserol a allai effeithio ar ddiogelu.
6. Argymhellir y dylid adolygu a diweddarau 'Protocol Amlasiantaeth Gogledd Cymru: Cefnogi Plant, Cefnogi Rhieni' i gynnwys arwyddion a symptomau penodol i helpu gweithwyr i nodi pryd mae rhieni'n dopio eu plant yn fwriadol.
7. Dylid ystyried 'Protocol Amlasiantaeth Gogledd Cymru: Cefnogi Plant, Cefnogi Rhieni' ar gyfer asiantaethau sy'n adolygu eu prosesau gan roi sicrwydd i'r Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol ynghylch sut maen nhw wedi lledaenu a gweithredu'r protocol.
8. Mae'r achos hwn hefyd wedi tynnu sylw at werth cronolegau wrth ystyried teuluoedd yng nghydestun eu hanes er mwyn rhagweld ymddygiadau yn y dyfodol.
9. Mae angen i hyfforddiant aml-asiantaeth ar gamddefnyddio sylweddau gynnwys gwybodaeth am yr hyn y mae canlyniadau profion wrin mewn achosion o'r fath yn ei olygu mewn gwirionedd.
10. Argymhellir bod y gwasanaethau iechyd yn archwilio eu prosesau mewnol i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol allweddol yn derbyn gwybodaeth ddiogelu mewn modd amserol.

Cyfeiriadau

Williams S. a Salem F.(2016)
re:ECPR Gwynedd 1 2015

www.safeguardingboard.wales/2018/06/17/case-reference-north-wales-gwynedd/